

# DOLEN Y TAB 123

30 Medi - 1 Hydref 2022

## Oedfa Sul 2 Hydref am 11

Oedfa Gymun yng ngofal Ann ac Emlyn gyda Bethan Roberts wrth yr organ

### YR OEDFAON NESAF

#### Hydref

- 9** Y Parchedig Aled Edwards gyda'r Parchedig Eirian Rees yn llywyddu.
- 16** Gwasanaeth Diolchgarwch gyda phlant yr Ysgol Sul a Gwion yn llywyddu.
- 23** Glenys, Dafydd a Lowri Roberts.
- 30** Y Parchedig Gethin Rhys.

### Hefyd ddydd Sul 2 Hydref

#### 12.00 Radio Cymru

Oedfa dan arweiniad Olwen Williams, Tudweiliog.

#### 12.30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

**19.30 Dechrau Canu Dechrau Canmol - Heddwch** Ymweld â chanolfan lloches i Ffoaduriaid, Oasis, a chlywed gan un sy'n estyn llaw i'r rhai sy'n ffoi rhag gormes a thrais.

#### E-fwletin Cristnogaeth 21

[www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

### Brysia Wella

Estynnwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Maldwyn Pate wedi iddo derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Llandochoau yn ddiweddar.

## Bore Coffi Macmillan



Braf oedd gweld bod gwledd o ddanteithion blasus yn aros y rhai fynychodd y bore coffi yn y Ganolfan fore Mawrth. Llwyddwyd i godi £360 tuag at y gwaith gwerthfawr iawn a wneir gan yr elusen Macmillan. Diolch i bawb am eu cefnogaeth wrth alw i mewn, pobi cacen, golchi'r llestri neu gyfrannu'n ariannol i'r apêl. Diolch hefyd i Eleri Mai am ofalu am y trefniadau.

## Cysylltwyr Ardal

Cynhelir cyfarfod o'r Cysylltwyr Ardal yn dilyn y gwasanaeth fore Sul 9 Hydref. Byddwn yn ymgynnull o gwmpas y piano ym mhen blaen y capel yn syth wedi'r oedfa.



# O'R DIWEDD



Mae misoedd lawer wedi mynd heibio ers i ni grybwyll ein bwriad fel eglwys i osod system yn y capel fyddai'n ein galluogi i ffrydio'r oedfaon yn fyw ar y rhyngwyd. Bu'r broses o fwrw ymlaen gyda'r cynllun yn un llawer hirach a mwy trafferthus nag yr oeddem wedi ei ragweld ar y dechrau, yn enwedig wedi i ni sicrhau nawdd ariannol o Gronfa Pantyfedwen a Chyfundeb Dwyrain Morgannwg i gefnogi'r fenter. Yn y cyfamser buom yn hynod o ffodus am barodwydd Aled, Hefin, Gwion a Heulyn am rannu'r gwaith o ffrydio'r gwasanaethau dros eu ffonau symudol bron yn ddi-fwlch ers dechrau'r gwanwyn. Hefyd rydym yn hymod o ddiolchgar am arbenigedd ac amynedd Carwyn Lloyd Jones, a dyfalbarhad Emlyn Davies, wrth ymgiprys gyda BT i ddatrys y rhwystrau oedd wedi codi gyda'r cysylltiad rhyngwyd.

Ond bellach mae goleuni i'w weld ym mhen draw'r twnnel gan ein bod yn disgwyl i beirianwyr Vaughan Sounds, y cwmni sy'n arbenigo yn y maes, ddod draw i'r Tabernacl yn ystod y deg niwrnod nesaf i osod y system yn ei lle. Ein gobaith yw y bydd modd dechrau ffrydio'r oedfaon drwy'r system newydd erbyn dechrau Tachwedd.

Y cam olaf fydd gofalu bod gennym dîm o blith aelodau'r Tabernacl fydd yn fodlon derbyn hyfforddiant i'w weithredu. Rhowch wybod i ni cyn gynted â phosib os ydych yn barod i dderbyn hyfforddiant ac i ymuno yn y rota i ffrydio'r oedfaon. Bydd staff Vaughan Sounds ar gael i gynnig hyfforddiant yma i ni.

## Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd am 7.30 nos Fawrth 11 Hydref. Os oes gennych fater yr hoffech ei godi gyda'r Bwrdd, rhowch wybod i'r Ysgrifennydd erbyn nos Lun 10 Hydref. (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205).



# BABI TWM



Y Ganolfan,  
Capel Tabernacl

10.00-11.30



26/09/22, 10/10/22, 24/10/22  
07/11/22



Croeso i rieni, gwarchodwyr, Nain, Tad-cu a'i plant/wyrion/wyresau

## C21 Cynhadledd a Chyfarfod Blynyddol 2022

### Gorwelion Newydd

Canolfan y Morlan, Aberystwyth  
10.30yb - 3.30yb, Sadwrn, 22 Hydref 2022

Cyfle i gyfrannu at gyfeiriad a datblygiad C21 i'r dyfodol. Byddwn yn trafod dwy o'n themâu gweithredol cyfredol:

- Capeli a chartrefi
- Cydweithio mewn cenhadaeth

### Cyfranwyr

Dafydd Iwan, John Roberts, Pryderi Llwyd Jones, Cris Tomos, Luned Voyle, Gareth Ioan a mwy.

Pris, gan gynnwys coffi a chinio - £25.

Cofrestrwch drwy anfon e-bost at:  
[cristnogaeth21@gmail.com](mailto:cristnogaeth21@gmail.com) cyn 17 Hydref.

**Cyfarfod Blynyddol C21 i'w gynnal am 3.00yb.**

## RHAGRYBUDD

Capel y Tabernacl Cyf.

## CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Bore Sul 27 Tachwedd 2022

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org).

Gofynnir i chi anfon newyddion erbyn nos lau at:  
07710 237327 / 01443 225205 /  
[gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)